




TALU EICH RHENT



Eich rhent sy'n talu am eich cartref a'r gwasanaethau eraill 'rydych yn dderbyn gan CCG.

Heb yr arian yma, ni fyddai'n bosib i ni barhau i ddarparu cartrefi a gwasanaethau o safon.



Fel rhan o'ch cytundeb tenantiaeth gyda CCG rydych wedi cytuno i dalu rhent i ni am eich cartref.

Mae hyn yn golygu bod angen talu rhent ac unrhyw dâl am wasanaeth neu dâl Cefnogi Pobl wythnos ymlaen llaw. Fel arfer mae rhent yn codi ym mis Ebrill yn unol â chanllaw Llywodraeth Cymru. Byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd ysgrifenedig os bydd yna unrhyw newid i'ch rhent.

SUT I DALU RHENT A THALIADAU ERAILL

Mae sawl ffordd o dalu rhent a thaliadau eraill fel yswiriant cynnwys cartref. Mae'r rhain yn cynnwys:



Debyd Uniongyrchol



Swyddfa Bost/Pay Point



Dros y ffôn

WWW...

Ar y we



Neges destun



Archeb Sefydlog

Ffoniwch ni ar **0300 123 8084**
neu ewch i **www.ccgwynedd.org**



DEBYD UNIONGYRCHOL

Y ffordd hawsaf o dalu eich rhent yw gyda Debyd Uniongyrchol. Unwaith y mae wedi ei drefnu, nid oes angen i chi wneud dim. Bydd CCG yn trefnu bod swm y Debyd Uniongyrchol yn newid os oes unrhyw newidiadau i'ch rhent. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau cyn iddynt gael eu gwneud.

Nid oes yna unrhyw waith papur gyda Debyd Uniongyrchol, does dim rhaid i chi lenwi ffurflen hyd yn oed. Bydd aelod o staff CCG yn cymryd eich manylion dros y ffôn ac yna byddwch yn cael llythyr yn cadarnhau faint y byddwch yn ei dalu a'r dyddiadau talu.

I drefnu taliad Debyd Uniongyrchol ffoniwch ni ar 0300 123 8084 neu ewch i un o'n swyddfeydd ardal. Y cwbl sydd angen arnoch yw manylion eich cyfrif banc (cod didoli a rhif y cyfrif) - fe wnawn ni'r gweddill.



DROS Y FFÔN

Gall CCG dderbyn taliadau gyda cherdyn debyd dros y ffôn ar 0300 123 8084



SWYDDFA BOST NEU PAYPOINT

Gallwch ddefnyddio eich cerdyn CCG i dalu rhent mewn unrhyw Swyddfa Bost a nifer o siopau neu ble bynnag welwch chi'r symbol Paypoint.

Mae manau Paypoint ar agor am oriau hir, ac mae gwasanaeth 24/7 dros y ffôn ac ar y we hefyd sy'n cynnig ffordd hwylus i chi dalu ar amser sy'n gyfleus i chi.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn am gerdyn CCG, cysylltwch gyda ni.

WWW...

TALIADAU AR Y WE

Os ydych chi eisiau talu eich rhent ar y we, gwnewch hyn drwy glicio ar y linc ar ein gwefan; www.ccgwynedd.org.

Byddwch angen eich cerdyn CCG a'ch cerdyn debyd i wneud hyn. Os nad oes gennych chi gerdyn, cysylltwch gyda ni i drefnu bod un yn cael ei yrru atoch am ddim. Bydd taliadau dros y we fel arfer yn cymryd hyd at dri diwrnod gwaith i ymddangos ar eich cyfrif rhent.



TALIADAU TESTUN

I ddechrau talu rhent yn ddiogel drwy neges destun, y cyfan 'rydych chi ei angen yw ffôn symudol wedi ei gofrestru yn y Deyrnas Unedig, cerdyn CCG a cherdyn debyd.

Cam 1: Rhaid cofrestru ar y we i lwytho manylion eich cerdyn. Ewch i www.allpayments.net/textpay/login.aspx i wneud hyn. Os nad oes modd i chi fynd ar y we, gallwch wneud hyn yn un o swyddfeydd ardal CCG. Dim ond un waith sy'n rhaid i chi gofrestru, heblaw bod eich manylion (e.e. cerdyn debyd) yn newid.

Cam 2: Unwaith y byddwch wedi cofrestru, bob tro y byddwch eisiau gwneud taliadau gallwch yrru neges at **81025** gan ddechrau'r neges gyda "Pay rent" a'r swm 'rydych chi eisiau ei dalu ac yna eich cyfrinair neges destun, sef pedwar rhif olaf eich cerdyn debyd.

Cam 3: Byddwch yn cael neges destun yn cadarnhau eich taliad.

CAEL TRAFFERTH TALU EICH RHENT?

Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd talu eich rhent, cysylltwch â ni cyn gynted â phosib. Drwy ofyn am gymorth cyn gynted â phosib mae'n lleihau'r posibilrwydd bod eich ôl-ddyledion yn mynd allan o reolaeth.

Gallwn drafod y ffordd orau ymlaen neu eich cyfeirio at asiantaethau eraill. Mewn rhai achosion, efallai bod gennych hawl i fudd-daliadau eraill. Cysylltwch gyda ni am fwy o wybodaeth.

Gallwch hefyd gael cyngor annibynnol drwy gysylltu gyda:

Shelter Cymru:
0845 075 5005

Cyngor ar Bopeth:
08444 772020 / 08454 503064

Mae CCG wedi ymrwymo i ddarparu cyngor a chefnogaeth i'n tenantiaid fel y gallent gynnal eu tenantiaethau. Fodd bynnag, os bydd rhaid, byddwn yn gweithredu er mwyn atal ôl-ddyledion.



ARCHEB SEFYDLOG

I dalu rhent drwy Archeb Sefydlog gyda'r banc, cysylltwch gyda CCG a gallwn ei drefnu ar eich rhan.

Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol, fel Braille, llythrennau bras, neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 123 8084.